# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 2il Hydref 2018
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor, Caredig Jones(Cadeirydd), Dewi Rattray, Ada Evans, Rowland Jones, Meic Francis, Dylan Edwards, Richard Davies, John Davies, Meirion Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.-

Rhoddwyd croeso i gyfarfod Mis Hydref gan y Cadeirydd Caredig Jones. Estynwyd cydymdeimlad at Jean a'r teulu ar eu colled yn ddiweddar. Trist iawn oedd y newyddion. Fuoedd Neville Jones yn help mawr i'r cyngor cymuned dros y blynyddoedd, nid yn unig yn eu rôl fel Archwiliwyr ond yn wir mewn nifer o faterion, roedd yn bob tro yn barod i helpu. Hoffwn roi diolch am eu gwaith trylwyr, mi fydd yn golled fawr i'r gymuned.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Medi, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.

**18/1046 - MATERION YN CODI**

1. Adroddiad gan y Cyng.Richard Davies ar holiadur Mid Wales Fire & Rescue Service.

**18/1047 - LLYTHYRON**

1. Manylion oddiwrth Royal Mail a manylion Scam Mail er mwyn ceisio codi ymwybyddiaeth am llythyron sgâm sy'n cylchredeg. Os bod unrhywun yn pryderu eu bod wedi derbyn post twyllo, ysgrifennwch at 'FREESPOST SCAM MAIL' gan amgáu'r eitemau a dderbyniwyd.
2. Ffordd ar gau C1124 Llanilar rhwng 08/10/2018 - 12/10/2018.
3. Hysbyseb wrth Garu Ceredigion ynglŷn â digwyddiad 'Cynllun Amddiffyn Arfrdirol Aberystwyth'. Poster ar hysbysfwrdd yr Hen Ysgol.
4. Adroddiad Hywel Dda am Drawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd.
5. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis.

**18/1048 – ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Awst; £133.26 + Miss Medi + Miss Hydref. Cyfanswm £399.78 Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray

**18/1049 – CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw cais wedi dderbyn

**18/1050 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Gwasanaeth Sul Y Cofion Dydd Sul 11 Tachwedd Egwlys St Ilar, Llanilar.
2. Nodwyd gan aelod o'r cyhoedd bod ceir yn parcio ar y 'green' yn Dol Ystwyth ar adeg casglu plant o'r ysgol. Mae'r cynghorwyr yn gwerthfawrogi fod parcio yn broblem, ond gall achosi llanast ar y glaswellt yn ystod y tywydd gwlyb. Mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda'r ysgol ynglŷn â hyn.

3. Diolch eto i Keith, Falcon Inn Llanilar am y rhodd o faner Ddraig goch. Mae eisoes wedi eu rhoi yn sgwâr y pentref.
4. Ofynnwyd I'r Clerc cysylltu gyda'r adran priffyrdd ynglŷn â gwasgaru 'Grit' ar ffordd y Dyffryn eleni eto.
5. Mae aelod o'r cyhoedd wedi dwyn sylw'r cynghorwyr fod ceir yn parcio ar y lonydd i'r gylchfan yn y sgwâr. Ofynnwyd fod llythyr yn mynd at yr adran priffyrdd ynglŷn â hyn.

Orffennwyd y cyfarfod am 9y.h.